



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 64 (Cy.13)

2006 No. 64 (W.13)

CYRFF CYHOEDDUS, CYMRU

PUBLIC BODIES, WALES

**Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd
Henebion Cymru 2006**

**The Ancient Monuments Board for
Wales (Abolition) Order 2006**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae Bwrdd Henebion Cymru ("y Bwrdd") ar hyn o bryd wedi'i gyfansoddi o dan adran 22 o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 ("Deddf 1979"). Prif Swyddogaeth y Bwrdd yw cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar arfer pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1979.

The Ancient Monuments Board for Wales ("the Board") is currently constituted under section 22 of the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 ("the 1979 Act"). The main function of the Board is to advise the Secretary of State on the exercise of the Secretary of State's powers under the 1979 Act.

Effaith erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, yw mai prif swyddogaeth y Bwrdd bellach yw cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol").

The effect of article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) is that the main function of the Board is now to advise the National Assembly for Wales ("the National Assembly").

Mae'r Bwrdd wedi'i bennu yn Rhan 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ("Deddf 1998") yn gorff y caiff y Cynulliad Cenedlaethol, drwy Orchymyn wedi'i wneud o dan adran 28(1) o Ddeddf 1998, drosglwyddo ei swyddogaethau statudol i gorff arall, gan gynnwys eu trosglwyddo iddo'i hun.

The Board is specified in Part I of Schedule 4 to the Government of Wales Act 1998 ("the 1998 Act") as a body whose statutory functions the National Assembly may, by Order made under section 28(1) of the 1998 Act, transfer to another body, including to itself.

Mae adran 28(2) o Ddeddf 1998 yn darparu y caiff y Cynulliad Cenedlaethol, drwy Orchymyn, ddiddymu unrhyw swyddogaeth sydd gan gorff o'r fath yn hytrach na'i throsglwyddo i gorff arall os yw'r swyddogaeth fel y mae yn ei gwneud yn ofynnol gwneud rhywbeth mewn cysylltiad â'r corff arall hwnnw (enghraifft o hyn yw'r swyddogaeth sydd gan y Bwrdd o gynghori'r Cynulliad Cenedlaethol: byddai trosglwyddo'r swyddogaeth honno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ei gynghori ei hun).

Section 28(2) of the 1998 Act provides that the National Assembly may, by Order, abolish a function of such a body instead of transferring it to another body if the function, at present, requires something to be done in relation to that other body (an example being the Board's function of advising the National Assembly, the transfer of which to the National Assembly would require the National Assembly to advise itself).

Mae adran 28(3) o Ddeddf 1998 yn darparu y caiff y Cynulliad Cenedlaethol, drwy Orchymyn, ddiddymu corff a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 4 i Ddeddf 1998 os

Section 28(3) of the 1998 Act provides that the National Assembly may, by Order, abolish a body specified in Part I of Schedule 4 to the 1998 Act if each

yw pob un o swyddogaethau statudol y corff yn cael eu trosglwyddo neu eu diddymu.

Mae adran 28(4) o Ddeddf 1998 yn darparu y caiff Gorchymyn sy'n cynnwys darpariaeth a ganiateir gan adran 28(3) drosglwyddo unrhyw eiddo, unrhyw hawliau ac unrhyw rwymedigaethau sydd gan y corff hwnnw.

Mae adran 28(7) o Ddeddf 1998 yn darparu y caiff Gorchymyn o dan adran 28 gynnwys darpariaethau canlyniadol priodol, gan gynnwys diddymu deddfiadau.

Yn unol â hynny—

- (a) mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r Bwrdd a'i swyddogaethau ac yn trosglwyddo unrhyw eiddo, unrhyw hawliau ac unrhyw rwymedigaethau sydd gan y Bwrdd i'r Cynulliad Cenedlaethol; a
- (b) mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud y diddymiadau a'r diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i ddeddfiadau.

of the statutory functions of the body are transferred or abolished.

Section 28(4) of the 1998 Act provides that an Order which includes provision permitted by section 28(3) may transfer any property, rights or liabilities of that body.

Section 28(7) of the 1998 Act provides that an Order under section 28 may contain appropriate consequential provisions, including the repeal of enactments.

Accordingly—

- (a) article 2 of this Order abolishes the Board and its functions and transfers any property, rights or liabilities of the Board to the National Assembly; and
- (b) article 3 of this Order make the necessary consequential repeals and revocations of enactments.

2006 Rhif 64 (Cy.13)**2006 No. 64 (W.13)****CYRFF CYHOEDDUS, CYMRU****PUBLIC BODIES, WALES****Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd
Henebion Cymru 2006****The Ancient Monuments Board for
Wales (Abolition) Order 2006***Wedi'i wneud**18 Ionawr 2006**Made**18 January 2006**Yn dod i rym**1 Ebrill 2006**Coming into force**1 April 2006*

GAN FOD adran 28(1)(d) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (“Deddf 1998”)(1), a Rhan I o Atodlen 4 iddi, yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad Cenedlaethol”) i drosglwyddo iddo’i hun swyddogaethau statudol Bwrdd Henebion Cymru (“y Bwrdd”) sydd wedi’i gyfansoddi ar hyn o bryd o dan adran 22 o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 (“Deddf 1979”)(2)

A CHAN FOD y Cynulliad Cenedlaethol o’r farn fod swyddogaethau statudol y Bwrdd, sef yn bennaf cynghori’r Cynulliad Cenedlaethol ar arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf 1979, yn bennaf yn swyddogaethau sy’n ei gwneud yn ofynnol rhoi cyngor i’r Cynulliad Cenedlaethol ei hun ac felly’n dod o fewn adran 28(2)(a) o Ddeddf 1998

YN AWR FELLY mae’r Cynulliad Cenedlaethol, drwy arfer ei bwerau o dan adran 28 o Ddeddf 1998, a Rhan I o Atodlen 4 yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd Henebion Cymru 2006.

(2) Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2006.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr “y Bwrdd” (“*the Board*”) yw Bwrdd Henebion Cymru.

Diddymu’r Bwrdd

2.—(1) Diddymir y Bwrdd.

(2) Trosglwyddir pob eiddo a phob hawl y mae gan y Bwrdd hawl iddynt, ac unrhyw rwymedigaethau y mae’r Bwrdd yn ddarostyngedig iddynt, i’r Cynulliad Cenedlaethol.

(1) 1998 p.38.

(2) 1979 p.46; cafodd y Bwrdd ei ffurfio a’i gyfansoddi’n wreiddiol o dan adran 15 o Ddeddf Cydgrynhoi a Diwygio Henebion 1913 (p.32).

WHEREAS section 28(1)(d) of, and Part I of Schedule 4 to, the Government of Wales Act 1998 (“the 1998 Act”)(1) enables the National Assembly for Wales (“the National Assembly”) to transfer to itself the statutory functions of the Ancient Monuments Board for Wales (“the Board”) currently constituted under section 22 of the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 (“the 1979 Act”)(2)

AND WHEREAS the National Assembly considers that the statutory functions of the Board, being mainly to advise the National Assembly on the exercise of its functions under the 1979 Act, are mainly functions requiring advice to be given to the National Assembly itself and therefore fall within section 28(2)(a) of the 1998 Act

NOW THEREFORE the National Assembly, in exercise of its powers under section 28 of, and Part I of Schedule 4 to, the 1998 Act makes the following Order:

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Ancient Monuments Board for Wales (Abolition) Order 2006.

(2) This Order comes into force on 1 April 2006.

(3) In this Order, “the Board” (“*y Bwrdd*”) means the Ancient Monuments Board for Wales.

Abolition of the Board

2.—(1) The Board is abolished.

(2) All property and rights to which the Board is entitled, and any liabilities to which the Board is subject, are transferred to the National Assembly.

(1) 1998 c.38.

(2) 1979 c.46; the Board was originally established and constituted under section 15 of the Ancient Monuments Consolidation and Amendment Act 1913 (c.32).

Diwygiadau canlyniadol

- 3.—(1) Diddymir y darpariaethau a ganlyn—
- (a) adrannau 22 a 23 o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979(1); a
 - (b) y cofnod sy'n ymwneud â'r Bwrdd yn—
 - (i) Rhan II o Atodlen 1A i Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976(2);
 - (ii) Rhan I o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; a
 - (iii) Rhan VI o Atodlen 1 i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000(3).
- (2) Dirymir y cofnod sy'n ymwneud â'r Bwrdd yn—
- (a) Atodlen 3 i Orchymyn Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswyddau Statudol) 2001(4); a
 - (b) Rhan I o Atodlen 1 i Orchymyn Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Cychwyn Rhif 2) 2002(5),

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

18 Ionawr 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Consequential amendments

- 3.—(1) The following provisions are repealed—
- (a) sections 22 and 23 of the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979(1); and
 - (b) the entry relating to the Board in—
 - (i) Part II of Schedule 1A to the Race Relations Act 1976(2);
 - (ii) Part I of Schedule 4 to the Government of Wales Act 1998; and
 - (iii) Part VI of Schedule 1 to the Freedom of Information Act 2000(3).
- (2) The entry relating to the Board in—
- (a) Schedule 3 to the Race Relations Act 1976 (Statutory Duties) Order 2001(4); and
 - (b) Part I of Schedule 1 to the Freedom of Information Act 2000 (Commencement No.2) Order 2002(5),
- is revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998

18 January 2006

D. Elis-Thomas

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1979 p.46.

(2) 1976 p.74. Mewnosodwyd Atodlen 1A gan Ddeddf (Diwygio) Cysylltiadau Hiliol 2000 (p.34), adran 2(2) ac Atodlen 1, ac fe'i diwygiwyd gan Orchymyn Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (Dyletswydd Statudol Cyffredinol) 2001 (O.S. 2001/3457), erthygl 2(d) a'r Atodlen iddo.

(3) 2000 p.36.

(4) O.S. 2001/3458.

(5) O.S. 2002/2812.

(1) 1979 c.46.

(2) 1976 c.74. Schedule 1A was inserted by the Race Relations (Amendment) Act 2000 (c.34), section 2(2) and Schedule 1 and amended by the Race Relations Act 1976 (General Statutory Duty) Order 2001 (S.I. 2001/3457), article 2(d) and the Schedule to it.

(3) 2000 c.36.

(4) S.I. 2001/3458.

(5) S.I. 2002/2812.

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 64 (Cy.13)

CYRFF CYHOEDDUS, CYMRU

Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd
Henebion Cymru 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 64 (W.13)

PUBLIC BODIES, WALES

The Ancient Monuments Board for
Wales (Abolition) Order 2006

©© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W202/1/06

ON